Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG55605

Ymgynghoriad ar y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2027

Dogfen Ymgynghori

Dyddiad cyhoeddi: 5 Tachwedd 2027

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Tachwedd 2027

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2026

Trosolwg

Mae’r Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru annibynnol yn ceisio barn ar Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2027, sy'n cynnwys newidiadau i gyfraddau isafswm cyflog a lwfansau ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer gweithwyr amaethyddol (“Gweithiwr amaethyddol" yn unol â'r diffiniad o amaethyddiaeth a nodir yn Neddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014).

Sut i ymateb

Ymatebwch drwy lenwi'r ffurflen ar-lein neu lenwi'r holiadur hwn a'i anfon i:

E-bost: AAP@llyw.cymru

Os ydych am ymateb yn ysgrifenedig, anfonwch y ffurflenni ar ôl eu llenwi i:

Rheolwr y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth

Llywodraeth Cymru

Neuadd y Sir

Spa Road East

Llandrindod

LD1 5LG

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill ar gais.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

E-bost: AAP@llyw.cymru

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ac unrhyw ddata personol a roddwch wrth ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut i gyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw, neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol, yn gweld unrhyw ymateb a anfonwch atom yn llawn. Yn achos ymgyngoriadau ar y cyd, gall hyn hefyd gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y gwneir gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Gallwn hefyd gyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Rydym yn cyhoeddi ymatebion yn ddienw ac ni chaiff eich enw na'ch manylion cyswllt eu cynnwys. Os hoffech i'ch enw neu fanylion eraill gael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch wybod inni pan fyddwch yn cyflwyno eich ymateb, a byddwn yn eu cynnwys.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gallai Llywodraeth Cymru fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata arall sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch, a gweld y data hynny
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn inni 'ddileu' eich data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd y data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://cy.ico.org.uk/

Cynnwys

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) 3
Cyflwyniad 6
Cefndir 6
Ymateb i'r ymgynghoriad 7
Gwybodaeth bersonol 8
Cwestiynau'r ymgynghoriad 9
Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r cyfraddau tâl isaf a'r lwfansau a awgrymir ar gyfer gweithwyr amaethyddol i ddechrau ar 1 Ebrill 2027? 9
Cwestiwn 2: Yn eich barn chi, beth fydd yr effeithiau ar fusnesau, gweithwyr, a'r diwydiant ffermio yn gyffredinol (da a drwg)? 9
Cwestiwn 3: : A ydych yn cytuno y dylid alinio Tâl Salwch Amaethyddol â Thâl Salwch Statudol drwy ddileu'r cyfnod aros tri diwrnod? 9
Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno â'r diwygiadau i absenoldeb profedigaeth fel yr amlinellir uchod? 9

Cyflwyniad

Cefndir

Mae Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru ("y Panel") yn gorff annibynnol sy'n cynnig y cyfraddau tâl isaf ar gyfer gweithwyr amaethyddol, a'u hamodau gwaith. Hefyd, mae'n annog pobl i weithio yn y sector amaeth ac yn ceisio nodi unrhyw anghenion sgiliau a all fod gan y diwydiant. Hefyd, mae gan y Panel ddyletswydd i roi cyngor i Lywodraeth Cymru pan ofynnir amdano.

Mae'r Panel yn cynnwys aelodau o grwpiau gwahanol: Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU Cymru), Unite the Union a thri aelod annibynnol.

Bob blwyddyn, mae'r Panel yn adolygu'r cyfraddau tâl isaf a'r amodau gwaith ar gyfer gweithwyr amaethyddol, gan gynnwys tâl salwch a lwfans goramser.

Wrth wneud penderfyniadau, mae'r Panel yn adolygu'r sefyllfa economaidd yn y sector amaethyddol yng Nghymru. Yn ogystal, mae effeithiau digwyddiadau ehangach yn cael eu hystyried, fel ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Brexit), pandemig Covid-19, a'r rhyfel yn Wcráin.

Mae Brexit wedi achosi ansicrwydd yn y byd ffermio oherwydd newidiadau i gytundebau masnach, rheolau a pholisïau mewnfudo. Oherwydd y newidiadau hyn, mae'n gallu bod yn anoddach dod o hyd i weithwyr tymhorol a medrus. Hefyd, mae'n bosibl bod busnesau amaethyddol yn pryderu am gymorth ariannol a chyfraddau taliadau yn y dyfodol, sy'n gallu gwneud cynllunio'n anodd.

Mae'r ansefydlogrwydd yn Wcráin a'r Dwyrain Canol ar hyn o bryd wedi cynyddu cost cyflenwadau ffermio ac wedi effeithio ar gyflenwad a phrisiau bwyd a bwyd anifeiliaid ledled y byd. Ar yr un pryd, mae costau byw wedi cynyddu'n sylweddol, sy'n anodd i weithwyr, yn enwedig y rhai ar incwm isel sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle mae pethau fel tai, trafnidiaeth, bwyd, gwres a gwasanaethau yn ddrutach.

Mae'r Panel yn ymgynghori ar ei gynigion cyn eu cyflwyno i gael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl iddyn nhw gael eu cymeradwyo, mae'r cynigion yn dod yn gyfraith yng Nghymru.

Ym mis Mehefin 2023, dangosodd arolwg (Arolwg o'r cyfrifiad amaethyddol a garddwrol: Mehefin 2023) fod 12,000 o bobl yn gweithio yn y sector amaeth yng Nghymru, cynnydd o 5% ers 2022. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr rheolaidd (llawn amser a rhan-amser) a gweithwyr achlysurol. Mae rhai swyddi, fel cneifio a chynaeafu, yn cael eu gwneud gan gontractwyr nad ydynt yn cael eu cyfrif yn yr arolwg hwn oherwydd eu bod yn hunangyflogedig.

Ymateb i’r ymgynghoriad

Mae'r cwestiynau isod yn ymwneud â'r strategaeth ddrafft, sydd ar gael ar wahân (dolen).

Sylwch, **nid oes gofyn i chi ateb bob cwestiwn**.

Lle bo'n bosibl, **eglurwch eich atebion a rhowch enghreifftiau, tystiolaeth neu astudiaethau achos i gefnogi eich barn**.

Gwybodaeth bersonol

Cyfrinachedd
Gellir cyhoeddi ymatebion i ymgyngoriadau ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech i enw'ch **sefydliad** yn unig gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch groes yma: ☐ Os hoffech i'ch **enw a'ch sefydliad** gael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch groes yma: ☐ Pe bai'n well gennych i'ch ymateb **aros yn ddienw**, rhowch groes yma: ☐

Eich enw:
Eich sefydliad (os yw'n berthnasol):
Manylion cyswllt a chyfeiriad e-bost:
Esboniwch eich diddordeb yn y strategaeth ddrafft: ☐ Aelod o'r cyhoedd ☐ Gweithiwr proffesiynol yn ymateb fel unigolyn ☐ Ymateb sefydliadol ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r cyfraddau tâl isaf a'r lwfansau a awgrymir ar gyfer gweithwyr amaethyddol i ddechrau ar 1 Ebrill 2027?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ddim yn gwybod/ansicr

Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a nodwch beth fyddai'n well yn eich barn chi.

Cwestiwn 2: Yn eich barn chi, beth fydd yr effeithiau ar fusnesau, gweithwyr, a'r diwydiant ffermio yn gyffredinol (da a drwg)?

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno y dylid alinio Tâl Salwch Amaethyddol â Thâl Salwch Statudol drwy ddileu'r cyfnod aros tri diwrnod?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ddim yn gwybod/ansicr

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno â'r diwygiadau i absenoldeb profedigaeth fel yr amlinellir uchod?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ddim yn gwybod/ansicr